



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

---

## **DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU**

---

**Teitl: Mesur Arfaethedig Iechyd Meddwl (Cymru)**

**Dyddiad: 22 Mawrth 2010**

**Gan: Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Bydd yr Aelodau am nodi y caiff y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) arfaethedig ei osod heddiw, 22 Mawrth. Byddaf yn gwneud Datganiad Deddfwriaethol yn y cyfarfod llawn yfory, 23 Mawrth, er mwyn cyflwyno'r Mesur arfaethedig.

Mae'r Mesur arfaethedig yn ceisio cyflwyno nifer o newidiadau pwysig i'r trefniadau deddfwriaethol presennol mewn perthynas ag asesu a thrin pobl â phroblemau iechyd meddwl.

Mae'r Mesur arfaethedig yn delio â mynediad at ofal a thriniaeth o fewn gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol ac eilaidd a'u derbyn. Bydd yn berthnasol i bobl sy'n derbyn gofal a thriniaeth o fewn y gwasanaethau hyn yng Nghymru. Bydd y Mesur arfaethedig hefyd yn gwneud darpariaeth i bobl sy'n derbyn gofal a thriniaeth yn yr ysbyty, fel y gallant gael mynediad i eiriolaeth annibynnol ac arbenigol os dymunant.

Nid yw'r Mesur arfaethedig yn delio â gorfodi pobl i fynd i'r ysbyty a chael triniaeth, ac ni ellir ei ddefnyddio i'w gwneud yn ofynnol i berson gael asesiad, triniaeth neu eiriolaeth os nad yw'n dymuno gwneud hynny - mae'r rhain yn parhau'n faterion i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae pum amcan polisi bras i'r Mesur arfaethedig:

1. Asesu iechyd meddwl unigolyn a, lle bo hynny'n briodol, trin ei anhwylder meddwl o fewn gofal sylfaenol, drwy roi dyletswydd statudol ar Fyrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol i ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol ledled Cymru.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod rôl hollbwysig gofal sylfaenol wrth ddarparu gofal a thriniaeth effeithiol ar gyfer iechyd meddwl. Nod y Mesur arfaethedig yw cryfhau'r rôl honno fel bod yna wasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol ledled Cymru. Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol fydd yn darparu'r rhain mewn partneriaeth, a disgwylir i'r gwasanaethau hyn weithredu ochr yn ochr â meddygfeydd teulu.

2. Creu gofynion statudol mewn perthynas â chynllunio gofal a thriniaeth a chydlynu gofal i bob unigolyn sy'n derbyn gofal a thriniaeth o fewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

Bydd y Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol bod yna gynllun gofal a thriniaeth ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaethau 18 oed a hŷn yr aseswyd bod angen gofal a thriniaeth arnynt yn y gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

3. Ei gwneud yn ofynnol bod gan wasanaethau iechyd meddwl eilaidd drefniadau i sicrhau bod cyn-ddefnyddwyr gwasanaethau yn medru cael asesiadau mewn da bryd.

Bydd hyn yn galluogi unigolion sydd wedi'u rhyddhau o'r gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd, ond sy'n credu bod cyflwr eu hiechyd meddwl yn dirywio i'r fath raddau fel bod angen gofal a thriniaeth arnynt eto, gyfeirio'u hunain yn ôl at y gwasanaethau eilaidd yn uniongyrchol, heb fod angen iddynt o reidrwydd gael eu hatgyfeirio at y gwasanaethau hynny gan eu meddyg teulu neu gan rywun arall. Bydd yn ofynnol i Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol sefydlu trefniadau i dderbyn hunanatgyfeiriadau o'r math hwn, a chynnal asesiadau mewn da bryd.

4. Ehangu'r grŵp 'cleifion cymwys' o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 sydd â hawl i gael cymorth gan Eiriolydd Iechyd Meddwl Annibynnol (IMHA), fel bod modd i bob claf sy'n ddarostyngedig i bwerau ffurfiol y Ddeddf gael cymorth IMHA os gofynnant amdano.

Ar hyn o bryd mae Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn ei gwneud yn bosibl i gleifion sy'n ddarostyngedig i'r adrannau tymor hwy gael cymorth a chefnogaeth oddi wrth Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol. Ar hyn o bryd, nid yw'r Eiriolwyr hyn ar gael i'r cleifion hynny sy'n perthyn i adrannau brys, tymor byrrach y Ddeddf. Bydd y Mesur arfaethedig hwn yn darparu y gall y cleifion hyn gael cymorth Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol os ydynt yn dymuno. Drwy ehangu'r cynllun IMHA fel hyn, gellir sicrhau fod pob unigolyn sy'n ddarostyngedig i Ddeddf 1983 yn medru cael cymorth a chefnogaeth annibynnol gan eiriolydd os mai dyma yw eu dymuniad.

5. Galluogi pob claf sy'n cael gofal a thriniaeth ar gyfer anhwylder meddwl mewn ysbyty i gael mynediad at IMHA arbenigol.

Yn achos llawer o gleifion sy'n derbyn gofal a thriniaeth yn yr ysbyty am eu problemau iechyd meddwl, ni chânt eu cadw'n gaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Cleifion gwirfoddol (neu anffurfiol) ydynt. Weithiau mae angen cymorth eiriolwr ar y cleifion hyn yn ystod eu cyfnod yn yr ysbyty, ond efallai na fydd gwasanaethau o'r fath ar gael bob amser. Bydd y Mesur arfaethedig hwn yn creu dyletswyddau statudol i sicrhau bod cymorth a chefnogaeth o'r fath ar gael i bob claf mewnol. Bydd eiriolaeth yn helpu cleifion mewnol i wneud penderfyniadau deallus am eu gofal a'u triniaeth, a'u helpu i gael llais.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Aelodau dros y misoedd nesaf wrth i'r gwaith o graffu ar y Mesur arfaethedig hwn fynd yn ei flaen.